DEWISWCH BARCH

#WYTHNOSGWRTHFWLIO

# Cerdd Dewis Parch
# Wythnos Gwrth-fwlio 2024

## Taflen 1

Dwi'n Dewis
Ti'n Dewis
Dan ni'n Dewis Parch

Dewis Parch, mae'n Angenrheidiol
Yn ein bywyd mae'n hanfodol.
Heb barch, fydd pethau'n ymfflamychol,
A dydy hynny ddim yn llesol.

Cofia barchu safbwynt pob un,
Cael anghydweld yw'n hawl diofyn.
Gwranda ar eraill, gwerthfawroga,
Mae'n well na ffraeo a chweryla.

Parcha'r sawl sydd ddim yn parchu,
Paid rhoi cyfle iddynt nerthu.
Paid taro'n ôl â geiriau creulon,
Na dilyn mympwy, creu helbulon.

Cofia barchu'r gorthrymedig,
Er mwyn cael parch, mae parchu'n bwysig,
Wrth deimlo parch, fydd neb yn unig,
Mae parch yn gylch cydgysylltiedig

Cofia sicrhau fod parch yn ddewis hawdd

Dwi'n Dewis
Ti'n Dewis
Dan ni'n Dewis Parch

© Biwro Cenedlaethol y Plant – Elusen gofrestredig rhif 258825. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr â rhif 952717. Swyddfa gofrestredig: 23 Mentmore Terrace, Llundain E8 3PN. Cwmni Cyfyngedig trwy Warant.

DEWISWCH BARCH

#WYTHNOSGWRTHFWILO

ANTI-BULLYING ALLIANCE

Trefnydd